

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 23/06/20

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), W.Tudor Owen, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Dim.

2. Datgan Buddiant Personol

Dim.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd ar y taliadau canlynol:

Enw	Swm	Talu allan o
(i) Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	£100 (unfrydol)	Pot "Arall"
(ii) Grŵp Apêl Uned Cancr a Haemotoleg Alaw	£100 (unfrydol)	Pot "Arall"
(iii) Clwb Criced Caernarfon	£500 (pleidleisiodd y Cyngorydd S.Sage yn erbyn y penderfyniad)	£200 o'r Amcangyfrifon a £300 o'r Pot "Arall"

5. Awdit 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar Awdit 2019/20.

Nododd y Clerc:

- (1) Y cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin, yn amlinellu'r diweddaraf o ran Awdit 2019/20.
- (2) Bod yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau'r gwaith papur perthnasol a'u bod wedi codi 2 bwynt yn eu llythyr oedd efo'r cyfrifon, sef:
 - bod angen i'r Cadeirydd lofnodi'r cyfrifon yn fisol yn y cyfarfod o'r Cyngor;

- bod angen tynhau'r drefn o ran awdurdodi taliadau (hyn ar waith gyda phenodiad y Dirprwy Glerc).
- (3) Bod y gwaith papur wedi cael ei anfon at yr Archwilydd Allanol o fewn yr amserlen.
- (4) Yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin roedd y Cyngor Llawn wedi rhoi caniatâd i glustnodi Cyfrifon "Designated" ar gyfer y materion canlynol:

2021/22	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2022/23	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2023/24	£20,000 – Adeilad yr Institiwt

Roedd hyn yn clymu i mewn efo'r Awdit, a'r angen i ddod â Chronfeydd y Cyngor i lawr dros amser

Nodwyd ymhellach bod yn rhaid tynnu sylw'r aelodau at y materion canlynol yn deillio o Awdit 2017/18 a 2018/19:

Awdit 2017/18

Math o Fater	Beth yw'r mater?	Gweithrediad
Y rhain yn gwneud y ffurflen flynyddol cael ei wneud yn amodol	Cynnal asesiad risg llawn	Hwn wedi ei gwblhau eleni
Gwella rheolaeth yn yr arferion gwaith	Balansau uchel	Hwn ar waith, gyda defnydd cynyddol o "Designated Funds"
Tynnwyd sylw er mwyn iddynt beidio digwydd eto	Cwestiwn ar y ffurflen – rhwymedigaeth i dalu am arian rhodd	Y cwestiwn ddim yn berthnasol bellach
Tynnwyd sylw er mwyn iddynt beidio digwydd eto	Ardystio cyfrifon - Y Swyddog Ariannol Cyfrifol i fod i'w hardystio cyn eu cyflwyno i'r Cyngor	Hyn wedi digwydd y tro hwn
Cynorthwyo'r Cyngor i weithredu o fewn y fframwaith statudol	Asedau sefydlog wedi eu dangos ar werth prisiad yn hytrach na chost prynu	Rydym wedi paratoi ein cyfrifon yn unol â'r drefn hanesyddol. Ein bwriad yw paratoi'r cyfrifon nesaf yn unol â'r awgrym yma
Cynorthwyo'r Cyngor i weithredu o fewn y fframwaith statudol	Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir	Ni wnaethpwyd hyn yn syth. Gweithredwyd ar hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol a dyma ein bwriad yn y dyfodol

Cynorthwyo'r Cyngor i weithredu o fewn y fframwaith statudol	Ni wnaeth y Cyngor gofnodi swm y praesept	Bod y Panel Cyllid wedi penderfynu "Yn sgîl yr holl wybodaeth, peidio â chodi'r Praesept ar gyfer 2020/21" yn ei gyfarfod ar y 16eg o Ragfyr 2019. Cymeradwywyd hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020. Noder nad yw'r union swm wedi ei nodi, ond nid oedd y Clerc yn ymwybodol o'r angen i wneud hynny ar y pryd.
--	---	---

Nid oedd y Clerc wedi sylweddoli tan yn gymharol ddiweddar bod angen edrych yn ôl i Awdit 2017/18 y tro hwn, gan ei fod wedi cymryd yn ganiataol mai edrych yn ôl i Awdit 2018/19 oedd raid iddo wneud. Fodd bynnag bydd hyn yn digwydd i'r dyfodol

Awdit 2018/19

Math o Fater	Beth yw'r mater?	Gweithrediad
Y rhain yn gwneud y ffurflen flynyddol cael ei wneud yn amodol	Gwefan – Hysbysiad o Ymarfer Hawliau Etholwyr - nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi'r hysbysiad o ymarfer hawliau etholwyr ar ei wefan yn ystod y cyfnod hysbysu.	Hwn bellach wedi ei wneud eleni
Y rhain yn gwneud y ffurflen flynyddol cael ei wneud yn amodol	Ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn dilyn cymeradwyo gan y Cyngor - methodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ag ardystio Datganiadau Cyfrifo'r Ffurflen Flynyddol ("y cyfrifon") cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo	Hwn wedi ei gwblhau y tro hwn
Cynorthwyo'r Cyngor i weithredu o fewn y fframwaith statudol	Cronfeydd - bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant	Hwn ar waith, gyda defnydd cynyddol o "Designated Funds"

Nodwyd y bu i'r Clerc gychwyn yn ei swydd ar y 23ain o Fedi, ac er iddo gyflwyno cynllun gweithredu i'r Cyngor ar y 1af o Hydref, ni fu iddo gyflwyno'r ffurflen flynyddol wedi ei chymeradwyo. Gofynnir am ganiatâd y Pwyllgor i gyflwyno hwn gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar y 7fed o Orffennaf.

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**
- (2) Cyflwyno'r ffurflen flynyddol wedi ei chymeradwyo er sylw'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 7fed o Orffennaf.**

6.Trefniadau Bancio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar drefniadau bancio'r Cyngor.

Nododd y Clerc:

- (1) Ei fod yn cyflwyno'r adroddiad er mwyn cael eglurder o ran y cyfrifon banc sydd gan y Cyngor Tref ac i ofyn cyngor yr aelodau o ran os oes angen symleiddio systemau.
- (2) Bod gan y Cyngor saith Cyfrif Banc (Imprest, Cyfredol, Cynilo, Her Gwynedd, Goleuadau Nadolig, Cronfa Eisteddfod a Chronfa Argyfwng) yn ogystal â Chronfa Nadolig y Maer.
- (3) Ei fod yn gofyn am sylwadau'r pwyllgor ar y materion canlynol:
 - Beth yw'r cefndir hanesyddol o gael yr holl gyfrifon banc?
 - Ydi rhai o'r cyfrifon ar gyfer arian wedi ei glustnodi ("Designated")?
 - Beth yw'r farn o ran cael llai o gyfrifon, hynny yw 3 neu 4 wrth symud ymlaen?

Penderfynwyd bod y panel o'r farn y dylid cael llai o gyfrifon, a symleiddio'r cyfrifon, gan ofyn i'r Clerc drafod y mater gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn derbyn arweiniad, a gweithredu ar yr arweiniad a gafwyd.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.40 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____